# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 31ain Gorffennaf 2014.**

**Presennol. Mri:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, D.G.Jones, H.D.Jones, J.P.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, H.M.Williams a Mrs Ann Williams

**Ymddiheuriadau.** Mri:- Siôn Ifans, G.Wigley, Mrs Gwen Lloyd, Mrs Gwenfair Davies a'r Cyng. G.P.Fychan.

**26. Cofnodion cyfarfod 26ain Mehefin 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**27. Materion yn codi o'r cofnodion.**
19.71.9 Derbyniwyd dau amcan bris i wella cyflwr y llwybr ym mynwent Darowen. Brodyr Evans, Dolgellau £2178 + TAW a Michael Byrne, Machynlleth £1450 +TAW. Derbyniwyd amcan bris Mr Byrne.
19.17.1 Parhau i wrthwynebu cau safle Potters ym Machynlleth.
19.17.4 Yn 1987 diddymwyd tri Cyngor Bro a ffurfio un Cyngor Cymuned. Mr Arthur J. Humphreys oedd y clerc cyntaf i'r Gymuned tan 1991 pryd yr etholwyd Mr Tom Owen. Roedd Huw Williams o'r farn iddo gael ei ethol cyn 1991 gan mai Mr Arthur Humphreys oedd y clerc ar y pryd. Cynhaliwyd etholiad yn 1990 a'r tebygrwydd yw mai dyna pryd y cafodd ei ethol gyntaf.
25.8 Derbyniwyd amcan bris o £400 oddi wrth Mr Glenn Ward i glirio o gwmpas mynwent Llanwrin.
25.10 Mae rhai o'r coed wedi eu torri ger Glandyfi, Llanwrin, er ddim digon ac mae'r sefyllfa ger Maesafon, Cwmlline heb ei datrys.

**28. Ffurflen Ariannol Flynyddol. 01/04/2013 - 31/03/2014**
Derbyniwyd y ffurflen o'r archwilwyr allanol. Mae'r cyfrifon hyd at ddiwedd Mawrth 2014 wedi eu derbyn fel yn gywir. Arwyddwyd y ffurflen gan y cadeirydd cyn ei dychwelyd i'r archwilwyr.

**29. Cynllunio.**
Ni dderbyniwyd cais yn ystod y mis.

**30. Eitemau i'w talu.**
30.1 Ym mis Rhagfyr 2013 pasiwyd cyfrannu £500 yn flynyddol am dair blynedd tuag at gronfa leol Eisteddfod Maldwyn 2015. Bydd y taliad olaf o £500 yn ddyledus ar ôl mis Ebrill 2015.

**31. Cais am arian.**
Trosglwyddwyd tri chais i Gronfa'r Melinau Gwynt.

**32. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
32.1 Cafwyd adroddiad gan Aled Griffiths am sefyllfa ariannol Ysgol Glantwymyn. Mae Cyngor Sir Powys yn cwtogi eu gwariant ar addysg yn flynyddol, ac i gadw pedwar athro fe fydd yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned gyfrannu tuag at y costau cynyddol o fis Medi ymlaen.

**33. Gohebiaeth.**
33.1 E-bost o'r heddlu lleol yn hysbysu eu bod yn bwriadu galw yn y Ganolfan adeg y cyfarfodydd misol i roi cyfle i sgwrsio efo'r cynghorwyr.
33.2 Pwyllgor y Blewyn Glas yn gofyn am lai o gynnyrch o'r cynghorau o achos diffyg gofod. Cytunwyd i barhau i gyfrannu i'r Blewyn Glas a'r Cambrian News ar ôl pob cyfarfod.
33.3 Eco Dyfi yn rhoi gwybodaeth fod Outward Bound, Aberdyfi yn cynnig pobl ifanc i wneud gwaith allan yn y wlad am bythefnos ym mis Awst. Mwy o wybodaeth erbyn 2015.
33.4 Gwasanaeth Cynnal Tiroedd. Amlinelliad o'r hyn mae'r Cyngor Sir am wneud i ostwng gwariant ar dorri a chlirio gwair oddi ar eu tir.
33.5 Ymgynghoriad ar ddyfodol Llyfrgell Machynlleth. Angen barn y cyngor. Awgrym fydda gwtogi ar yr oriau. Mae'r llyfrgelloedd yn cynnig llawer mwy i'r cyhoedd na llyfrau a chylchgronau i ddarllen, felly mae'n hanfodol i'w cadw ar agor. Y clerc i ymateb holiadur cyn 19eg Medi.
33.6 Arddangosfa yn Y Plas dydd Llun 4ydd Awst ar Gynllun Datblygu Lleol Powys. Angen ymatebion cyn 8fed Medi. Roedd Dafydd Evans yn bwriadu mynychu'r arddangosfa.
33.7 Cynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026.
33.8 Papur Gwyn. Diwygio llywodraeth Leol. Angen ateb erbyn 1af Hydref.
33.9 Cylchlythyr Tai Gwledig Powys. Gorffennaf 2014.
33.10 Ymateb Russell George ynglŷn â'r band llydan yn ardal Glantwymyn. Mae BT yn anelu i gael derbyniad gwell erbyn 2016. Llythyr pellach i Ann Beynon.

**34. Unrhyw fater arall.**
34.1 Wedi rhoi cerrig mân ar wyneb y ffordd sy'n arwain at y Ganolfan yng Nglantwymyn, mae yn hawdd i blant gael anaf. Eglurwyd y bydd peiriant yn dod yn fuan i godi'r cerrig mân sy'n rhydd ar ôl i fwy o drafnidiaeth eu gwasgu i lawr.
34.2 Mae'r fynedfa o Comins Uchaf i'r A470 yn beryglus gan fod coed wedi gordyfu ar dir y rheilffordd.
34.3 Angen symud yr arwydd 30 m.y.a. ochr uchaf i Tynewydd yng Nghwmlline.
34.4 Mae caead i dwll archwilio yn rhydd ar ffordd Cwmlline.
34.5 Angen arwyddion "Dim baw cwn" i geisio cadw'r rhos yn lân.
34.6 Coed ar ffordd Gwastadcoed angen eu torri.
34.7 Rhwng Abergwydol ac Abercegir mae angen llenwi tyllau yn y ffordd.
34.8 Mae arwyddion ger Penrhiw, Cwmlline yn rhy amlwg i drafnidiaeth.
34.9 Sbwriel ar ochrau'r ffyrdd ac yn y culfannau yn rhoi argraff anffafriol ar ymwelwyr i Ddyffryn Dyfi.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau 25ain Medi 2014.**